

Cytundeb y Gyllideb 2018-19 a 2019-20

Fel rhan o'r cytundeb arfaethedig hwn ar y Gyllideb, mae Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru wedi cytuno ar y mesurau canlynol:

Blaenraglen waith ddiwygiedig ar gyfer 2018-19

- Gwaith i ddatblygu Academi Lywodraethu Genedlaethol - creu perthynas hirdymor rhwng Academi a sefydliad addysg uwch sy'n dyfarnu graddau;
- Gwaith pellach i edrych ar y posibilrwydd o ymestyn rhwydwaith Metro De Cymru, gan gynnwys cysylltu Maerdy a Rhondda Fach;
- Edrych ar y posibilrwydd o gomisiynu atlas ynni i Gymru - rhestr genedlaethol o'r potensial sydd gan Gymru o ran ynni gwyrdd;
- Edrych ar yr achos a'r angen am ragor o ganolfannau strategol fel rhan o waith y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De.

Ymrwymadau

- Dim toriadau i'r grant Cefnogi Pobl - bydd £10m yn ychwanegol yn cael ei fuddsoddi i gadw'r cyllid ar yr un lefel â 2017-18;
- Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynllun parhaol ar gyfer rhyddhad ardrethi i fusnesau bach, a fydd yn dod i rym o fis Ebrill 2018. Gan ddibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwnnw, bydd Llywodraeth Cymru yn darparu rhyddhad ardrethi o 100% ar gynlluniau ynni dŵr cymunedol;
- Bydd GIG Cymru yn datblygu gwasanaeth a fydd yn rhoi cefnogaeth iechyd meddwl amenedigol arbenigol i famau newydd a'u babis yn ysbytai Nghymru;
- Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod £30m o gyllid ar gyfer safle pŵer Tata ar gael fel rhan o'r pecyn cymorth presennol i'r cwmni, yn unol ag ymrwymiad Tata i gynhyrchu dur yn Ne Cymru;
- Pan fydd canlyniad yr archwiliad llawn a manwl i du mewn Twnnel Rhondda yn hysbys - sy'n cynnwys astudiaeth dapio, byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i ystyried y camau nesaf, gan gynnwys perchnogaeth y twnnel;
- Byddwn yn ariannu'r gwaith o ddatblygu'r achos amlinellol strategol ar gyfer Metro Bae Abertawe a Chymoedd y Gorllewin;
- Byddwn yn ariannu astudiaeth ddichonoldeb o'r gwaith o greu Archif Genedlaethol i Gymru.

Dyraniadau'r Gyllideb ar gyfer 2018-19 a 2019-20

REFENIW			
Blaenoriaeth Plaid Cymru		Dyraniad 2018-19	Dyraniad 2019-20
Arfor	Cymorth ysgrifenyddiaeth a buddsoddi	£1m	£1m
Gwell darpariaeth o adnoddau addysg dwyieithog		£0.5m	£0.5m
Trydedd bont dros y Fenai	Cyllid i gefnogi'r gwaith o ddylunio a datblygu trydedd bont	£1m	£1m (o 2018-19) a £2m
Cynllun dychwelyd blaendal ar gyfer gwydr a chaniau	Cyllid i gefnogi cynlluniau i brofi dichonoldeb	£0.5m	
Brexit	Gan gynnwys cymorth i fusnesau	£2m	£1m (o 2018-19) a £2m
Mudiad Meithrin		£1m	£1m
Pwyntiau gwefru		£1m	£1m
Rhaglen economi sylfaenol	I ganolbwyntio ar y sector gofal a chaffael cyhoeddus yn y Gymru drefol a'r Gymru wledig	£1.5m	
Cynllun peilot Buurtzorg Cymru	Cyllid i gael ei ddefnyddio i gyflwyno elfennau o ddull Buurtzorg yng Nghymru. Bydd hyn yn canolbwyntio ar hyfforddi 80 o nyrsys ardal newydd.	£2m	£2m
Blaenoriaethau Cerddoriaeth	Cyllid ar gyfer mentrau cerddoriaeth mewn ysgolion	£1m	£1m

Pont Cleddau	Costau cael gwared ar y tollau		£2m
Sefydlu cynllun grant i ffermwyr ifanc		£2m	£4m
Uwchraddio rhwydwaith Traws Cymru o fysiau i goetsys		£200,000	£200,000
Grant cychwyn i newyddiadurwyr sydd am sefydlu eu busnes eu hunain ym maes newyddion lleol iawn	Cymorth cyllido ar gael drwy Busnes Cymru	£100,000	£100,000
Cyllid ar gyfer addysg feddygol	Cronfa ddatblygu ar gyfer hyfforddiant feddygol i israddedigion yn y Gogledd	£7m	£7m
Cyfanswm		£20.8m	£25.8m

DYRANIADAU REFENIW RHEOLAIDD o gytundeb y Gyllideb ar gyfer 2017-18			
Blaenoriaeth Plaid Cymru		Dyraniad 2018-19	Dyraniad 2019-20
Cyllid ar gyfer y Gymraeg		£5m	£5m
Cyllid ar gyfer y celfyddydau		£2.2m	£2.2m
Cyllid ar gyfer gofal diwedd oes		£1m	£1m
Cyllid ar gyfer gwasanaethau anhwylderau bwyta a dysfforia rhywedd		£1m	£1m
Mwy o gyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl		£20m	£20m
Mwy o gyllid ar gyfer Addysg Uwch ac Addysg Bellach		£20m	£20m

Rhagor o gyllid i Croeso Cymru		£3m	£1m
Cyfanswm		£52.2m	£50.2m

CYFALAF			
Blaenoriaeth Plaid Cymru		Dyraniad 2018-19	Dyraniad 2019-20
Cartrefi gofal meddygol y GIG, gan gynnwys cynigion sydd eisoes yn bodoli ar gyfer Aberteifi	Bydd y cyllid yn cwblhau'r gwaith o ddatblygu canolfan iechyd integredig newydd Aberteifi, a fydd yn dod yn lle Ysbyty Goffa Aberteifi a Chanolfan Iechyd Aberteifi.	£11m	£11m
Seilwaith trafnidiaeth genedlaethol ar gyfer cysylltu'r De a'r Gogledd - gwaith deuoli lle y bo'n bosibl gan ganolbwyntio'n arbennig ar yr A487	Gwelliannau i rannau o'r A487 a'r A470		£15m
Cronfa i ddatblygu astudiaethau dichonoldeb a gynhelir yn 2017-18 fel rhan o gytundeb y Gyllideb 2016 rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru	Mae astudiaethau dichonoldeb yn cael eu cynnal ar gyfer oriel gelf genedlaethol ac amgueddfa bêl-droed yn y Gogledd		£5m
Cyfanswm		£11m	£31m

